

Cofnodion cyfarfod 6/2/2020

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Ivora Jones, Alun Price, Carol Rowlands, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer, ac estynnodd groeso arbennig i aelodau o Gyngor Ysgol Godre'r Berwyn, sef Rhys Llywelyn Williams, Glain Williams a Tomos Williams, ynghyd â'r Pennaeth Bethan Emyr. Rhoddodd groeso hefyd i Julian Birley o Gwmni Rheilffordd Llyn Tegid ac i'r PCSOs lleol. Derbyniwyd ymddiheuriadau Rhys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Mabon Rhys a John Caradog Williams. Llongyfarchwyd Rhys Evans ar gael ei ddewis yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Powys (Corwen a'r Bala) a Dilys Evans yn Drysorydd.

2. **Cyflwyniadau:**

Rheilffordd: Soniodd Mr Julian Birley am y datblygiadau diweddaraf gyda Rheilffordd Llyn Tegid. Mae safle'r orsaf yn y Plase wedi'i glirio ac mae'n ddiolchgar iawn am gydweithrediad y Clwb Rygbi, Cyfoeth Naturiol Cymru, Visit Wales, Liz Saville Roberts a Dilwyn Morgan gyda'r ymdrech i gysylltu'r orsaf bresennol wrth yr un newydd. Bydd achlysur hyrwyddo'r rheilffordd ar 13 ac 14 o Fehefin 2020, ond creda fod dwy flynedd o waith eto cyn y bydd y rheilffordd yn agor.

Heddlu: Yn dilyn y lladrad diweddar yn y Parc Menter, anogodd yr Heddwesion bawb i gysylltu ar unwaith os gwelir rhywbeth amheus. Mae'r broblem cyffuriau yn parhau i dderbyn sylw gan yr heddlu ac fe weithredir pan ddaw digon o dystiolaeth a gwybodaeth i wneud cyrch llwyddiannus. Mae astudiaeth yn cael ei wneud o beryglon traffig i ddisgyblion yn ardal Ysgol Godre'r Berwyn.

Diolchodd y Maer yn gynnes i'r Heddlu ac i Mr Birley am eu presenoldeb a'u cyflwyniadau.

3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 9/1/2020.

5. **Materion y Clerc:** Gofynnodd y Clerc am geisiadau am nawdd i fudiadau (yng nghyd â mantolenni) i ddod i law i'w dyrannu ym mis Mawrth.

6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd, a soniodd yn fwy manwl am astudiaeth Swyddog Cyngor Gwynedd o'r llwybrau mae'r plant yn eu cymryd i gyrraedd Ysgol Godre'r Berwyn. Roedd y Cynghorwyr yn bryderus iawn oherwydd gwelwyd ceir yn gyrru trwy'r golau coch wrth yr Hen Lyfrgell ar o leiaf 2 achlysur, gyda phlant yn croesi ar y pryd. Cytunodd y Clerc i anfon llythyr at Gyngor Gwynedd i fynegi eu pryder dybryd.

Fel y crybwyllwyd gan y ddau PCSO, mae baw ci yn broblem unwaith eto yn y dre. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod Cyngor Gwynedd yn ystyried penodi mwy o swyddogion gyda mwy o bwerau. Bydd y rhain hefyd yn gallu cymryd camau pan fo trigolion yn gadael biniau allan am gyfnod maith ar y stryd. Dywedodd fod materion y Ganolfan Deulu yn nwylo'r cyfreithwyr.

7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry trwy law'r Clerc. Dywedodd fod y cynlluniau ar gyfer arglawdd Llyn Tegid a gwaith cysylltiol wedi eu hanfon at Barc Cenedlaethol Eryri, a bod angen gwneud rhai asesiadau amgylcheddol pellach.

8. **Is-bwyllgorau:** Nid oedd adroddiadau.

9. **Materion Cynllunio:** Nid oedd unrhyw geisiadau.

10. Materion Cyllid:

- i. Ardoll Parcio –Diolchwyd yn fawr i'r Cyngorydd Dilwyn Morgan am lwyddo i sicrhau fod Cyngor Tref Y Bala yn derbyn ardoll gwerth 10% (llai costau) o'r ffioedd parcio yn y Grîn a'r Plase. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at y gost o gadw'r toiledau cyhoeddus ar agor. Cytunwyd i'r Maer a'r Clerc i arwyddo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- iii. Derbyniwyd ad-daliad Cyngor Gwynedd ar waith cynnal ar Y Domen (£1570).
- iv. Cytunwyd i dalu anfonebau:
 - a. Cyngor Gwynedd am waith cynnal goleuadau Nadolig ar y coed: £279.72
 - b. Llogi bwrdd hysbysu yn y cae Pêl Droed: £96

11. Gohebiaeth:

- i. Comisiwn Elusennau – derbyniwyd gwybodaeth fod y manylion wedi eu diweddarau ar gyfer Canolfan Bro Tegid.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod y ciosg ar y Stryd Fawr yn mynd i gael ei gau; cytunwyd i drafod y mater yn y cyfarfod nesaf ar ôl derbyn arweiniad a ydyw ar werth.

12. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at y gwaith uwchraddio yng Nghanolfan Henblas. Dywedodd y Clerc iddi fynychu cyfarfod ar ran y Cyngor gyda myfyrwyr o Brifysgol Bangor a fydd yn gwneud gwaith mapio o'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl Penllyn. Bydd hyn yn cyd-blethu gyda'r gwaith a gomisiynwyd gan Gwmni Pum Plwy Penllyn cyf i ddisgyblion Ysgol Godre'r Berwyn wneud gwaith ymgysylltiol gyda thrigolion Penllyn am eu hanghenion a'u dymuniadau.

13. Asedau'r Cyngor:

- i. Diolchwyd i Carol Rowlands am ei hadroddiad. Cadarnhawyd fod y panel gwybodaeth wedi ei dynnu o'r Domen.
- ii. Gofynnwyd i John Caradog Williams osod y baneri ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

14. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:** Cytunodd y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ac at y Bwrdd Iechyd am gyflwr anwastad y fynedfa wrth droi mewn at y syrjeri.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5/2/20, Canolfan Henblas am 7.00pm

Amser gorffen: 8.00pm